IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 RHIF 16

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffyrdd Amrywiol yn Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Ionawr 2026* |
| *Yn dod i rym* | *6 Chwefror 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffyrdd Amrywiol yn Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 6 Chwefror 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 NO. 16

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A483 Trunk Road (Various Roads at Builth Wells, Powys) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 January 2026* |
| *Coming into force* | *6 February 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A483 Trunk Road (Various Roads at Builth Wells, Powys) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2026 and this Order comes into force on 6 February 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order —

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A483 Swansea to Manchester trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means that period commencing at 19:00 hours on 6 February 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw gerbyd droi i'r chwith o gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

**Atal dros dro**

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Traffig Unffordd) 1983(**1**) drwy hyn wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd o'r enw West Street, Church Street, High Street, Park Road a The Strand yn ystod y cyfnodau hynny pan fo'r traffig dwyffordd dros dro a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn weithredol.

**8.** Mae darpariaethau erthyglau 4, 5 a 6 o Orchymyn Cefnffyrdd (yr A470/A483) (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Rheoleiddio Traffig) 1985(**2**) a darpariaethau erthygl 3 o Orchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Aros) 2003(**3**) drwy hyn wedi eu hatal i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau o gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Ionawr 2026

NICCI HUNTER

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(1) O.S. 1983/1460
(2) O.S. 1985/539
(3) O.S. 2003/1648 (W.178)

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person shall, during the works period, drive any vehicle in an easterly direction in the length of the trunk road specified in Schedule 3.

**5.** No person shall, during the works period, cause or permit any vehicle to wait at any time on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 4.

**6.** No person shall, during the works period, permit any vehicle to turn left from the westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 5.

**Suspensions**

**7.** The provisions of the Trunk Road (A483) (Builth Wells, Powys) (One Way Traffic) Order 1983(**1**) are hereby suspended in respect of the lengths of the trunk road known as West Street, Church Street, High Street, Park Road and The Strand, during such times as the temporary two-way traffic specified in Schedule 2 of this Order, is in operation.

**8.** The provisions of articles 4, 5 and 6 of the Trunk Roads (A470/A483) (Builth Wells, Powys) (Traffic Regulation) Order 1985(**2**) and the provisions of article 3 of The A483 Trunk Road (Builth Wells, Powys) (Prohibition of Waiting) Order 2003(**3**) are hereby suspended insofar as they relate to the lengths of trunk road specified in the Schedules to this Order.

**Application**

**9.** The provisions of articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as the application of the prohibitions referred to therein is indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**10.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 26 January 2026

NICCI HUNTER

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

(1) S.I. 1983/1460
(2) S.I. 1985/539
(3) S.I. 2003/1648 (W.178)

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd o'r enw West Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4520 Market Street i gyfeiriad y gorllewin hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Church Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Garth Road, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Church Street i gyfeiriad y gorllewin hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Parc.

## ATODLEN 2
## Traffig Dwyffordd Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd o'r enw High Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Market Street i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Church Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â North Road a Ffordd y Parc i gyfeiriad y dwyrain hyd at ddechrau'r A483 The Strand.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw The Strand, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ddiwedd Church Street i gyfeiriad y dwyrain hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw West Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Market Street i gyfeiriad y gorllewin hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Church Street.

## ATODLEN 3
## Traffig Unffordd Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Garth Road, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Church Street a West Street i gyfeiriad y gorllewin hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Parc. Bydd cyfeiriad llif y traffig o'r dwyrain i'r gorllewin.

## ATODLEN 4
## Gwaharddiad Dros Dro ar Aros ar Unrhyw Adeg

Y darn o'r gefnffordd o'r enw West Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Market Street hyd at ei chyffordd â Church Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd y Parc, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Garth Road hyd at ei chyffordd â Church Street.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Garth Road, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Hospital Road i gyfeiriad y gorllewin am 30 metr.

## SCHEDULE 1
## Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the trunk road known as West Street, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with the B4520 Market Street in a westerly direction to the centre-point of its junction with Church Street.

The length of the trunk road known as Garth Road, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with Church Street in a westerly direction to the centre-point of its junction with Park Road.

## SCHEDULE 2
## Temporary Two-Way Traffic

The length of the trunk road known as High Street, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with Market Street in a north-easterly direction to the centre-point of its junction with Strand Street.

The length of the trunk road known as Church Street, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with North Road and Park Road in an easterly direction to the start of the A483 The Strand.

The length of the trunk road known as The Strand, Builth Wells, Powys that extends from the end of Church Street in an easterly direction to the centre-point of its junction with Strand Street.

The length of the trunk road known as West Street, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with Market Street in a westerly direction to the centre-point of its junction with Church Street.

## SCHEDULE 3
## Temporary One-Way Traffic

The length of the trunk road known as Garth Road, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with Church Street and West Street in a westerly direction to the centre-point of its junction with Park Road. The direction of traffic flow will be east to west.

## SCHEDULE 4
## Temporary Prohibition of Waiting at Any Time

The length of the trunk road known as West Street, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with Market Street to its junction with Church Street.

The length of the trunk road known as Park Road, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with Garth Road to its junction with Church Street.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Garth Road, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o'r pwynt lle mae lôn draffig Ffordd y Parc tua'r gorllewin yn ymuno â chylchfan Garth Road i gyfeiriad y dwyrain am 20 metr.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Garth Road, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o bwynt 19.6 o fetrau o ganolbwynt ei chyffordd â Hospital Road i gyfeiriad y gorllewin am 40 metr.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Garth Road, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o bwynt ar ymyl orllewinol mynedfa ddwyreiniol y cae criced i gyfeiriad y dwyrain am 35 o fetrau.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw High Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Market Street.

**ATODLEN 5**
**Dim Troad i'r Chwith Dros Dro**

O gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o'r enw Ffordd y Parc, Llanfair-ym-Muallt, Powys i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o'r enw Garth Road.

The length of the northern side of the trunk road known as Garth Road, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with Hospital Road in a westerly direction for 30 metres.

The length of the northern side of the trunk road known as Garth Road, Builth Wells, Powys that extends from the point where the Park Road westbound traffic lane joins Garth Road roundabout in an easterly direction for 20 metres.

The length of the southern side of the trunk road known as Garth Road, Builth Wells, Powys that extends from a point 19.6 metres from the centre-point of its junction with Hospital Road in a westerly direction for 40 metres.

The length of the southern side of the trunk road known as Garth Road, Builth Wells, Powys that extends from a point at the western edge of the cricket field eastern access in an easterly direction for 35 metres.

The length of the northern side of the trunk road known as High Street, Builth Wells, Powys that extends from the centre-point of its junction with Strand Street to the centre-point of its junction with Market Street

**SCHEDULE 5**
**Temporary No Left Turn**

From the westbound carriageway of the trunk road known as Park Road, Builth Wells, Powys onto the eastbound carriageway of the trunk road known as Garth Road.